Beth nesaf i ddysgwyr?

Rydym wedi llunio casgliad o ddolenni a fydd yn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau am eu camau nesaf.

Addysg ôl-16

Siaradwch â'ch athrawon am gyrsiau a phynciau a gynigir yn yr ysgol a'r coleg.

Trowch at wefan Gyrfa Cymru am arweiniad a chymorth i **Ddewis Pynciau a Chyrsiau yn 16**. Yma hefyd gallwch ddod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol am y **Coleg a'r Chweched Dosbarth**.

Trowch at **ColegauCymru** lle ceir rhestr o'r colegau yng Nghymru, a dolenni i wefannau'r colegau unigol.

Os ydych rhwng 16 a 18 oed, gallech fod yn gymwys am gyllid, ac mae manylion ar gael ar wefan **Gyrfa Cymru**.

Prentisiaethau

Ar wefan Gyrfa Cymru, rhoir gwybod beth mae prentisiaeth yn ei golygu, a sut mae ymgeisio.

I gael manylion pellach

CLICIWCH YMA

Prentisiaeth gradd

Eisiau gweithio a dysgu? Mae prentisiaid gradd yn gweithio drwy gydol eu gradd, gan dreulio rhan o'u hamser yn y brifysgol, a'r gweddill gyda'u cyflogwr.

I gael manylion pellach

CLICIWCH YMA

Y Brifysgol

Eisiau symud ymlaen at addysg uwch yng **Nghymru** neu rywle arall yn y DU? Mae gan UCAS wybodaeth am y camau nesaf sydd ar gael.

I gael manylion pellach

CLICIWCH YMA

Cymru'n Gweithio

Bydd Cymru'n Gweithio yn symleiddio mynediad, teilwra cyngor a chydgysylltu'r cymorth sydd ar gael i helpu pobl i leihau a goresgyn rhwystrau rhag gweithio.

I gael manylion pellach

CLICIWCH YMA

cyfathrebu@cymwysteraucymru.org www.cymwysteraucymru.org